## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y MESUR PRENTISIAETH, SGILIAU, PLANT A DYSGU

### Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. “Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai darpariaethau'r Mesur Prentisiaeth, Sgiliau, Plant a Dysgu sy'n ymwneud ag addysg troseddwyr ifanc, i'r graddau y maent yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU.”

### Y Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi ei gyflwyno gan John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, o dan Reol Sefydlog 26.4 o Reolau Sefydlog (SO) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan SO 26.2. Mae SO 26 yn pennu bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw un o Fesurau Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Cafodd y Mesur Prentisiaeth, Sgiliau, Plant a Dysgu (y Mesur) ei gyflwyno ar 4 Chwefror a'i adargraffu fel y'i diwygiwyd ar 6 Mai 2009. Gellir gweld y Mesur ar:

http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200809/ldbills/042/09042.i-v.html

4. Cafodd diwygiadau perthnasol y Llywodraeth mewn perthynas â throseddwyr ifanc eu gwneud yn ystod y cam pwyllgor (3 Mawrth i 26 Mawrth 2009) ac yn ystod cam yr adroddiad (5 Mai 2009) yn Nhŷ'r Cyffredin, a manylir arnynt isod.

### Crynodeb o'r Mesur a'i Amcanion Polisi

5. Mae'r Mesur yn cael ei noddi ar y cyd gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau. Prif bwrpas y Mesur yw diwygio addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion, darparu pwerau newydd er mwyn cryfhau ymddiriedolaethau plant, gwella safonau mewn ysgolion, a chynyddu hyder mewn cymwysterau.

6. Mae'r Mesur yn cynnwys nifer fechan o ddarpariaethau ar gyfer Cymru sydd yr un mor gymwys i Loegr sef:

- hawl i weithwyr ofyn am amser ar gyfer hyfforddiant;
- darpariaethau bod benthyciadau cyhoeddus i fyfyrwyr yn cael eu heithrio o Drefniadau Gwirfoddol Unigol (IVAs), a bod myfyrwyr sy'n diffygdalu ar fenthyciadau sydd o natur morgais yn cael eu cofrestru gyda'r asiantaethau geirda credyd;
- dyletswyddau ar awdurdodau lleol i sicrhau bod troseddwyr ifanc yn cael addysg a hyfforddiant;
- dyletswyddau o ran Rhagnodi Safonau Prentisiaeth, Fframweithiau Prentisiaeth a Thystysgrifau;
- darpariaethau sy'n cynorthwyo i sicrhau cydymffurfiad â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol;

7. Mae'r Mesur hefyd yn cynnig darpariaethau penodol i ganiatáu i sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru wneud cais am y pŵer i ddyfarnu graddau sylfaen, a darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n sefydlu gweithdrefnau cwyno sydd i'w mabwysiadu gan gyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir.

**Darpariaethau yn y Mesur y ceisir cydsyniad â hwy**

8. Mae rhan 2 o'r Mesur yn cynnwys darpariaeth i osod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i sicrhau addysg a hyfforddiant ar gyfer troseddwyr ifanc. Ceisir cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymalau a’r diwygiadau canlynol.

**<u>8i) Cymal 47 (fel y'i diwygiwyd)</u>**

Mae cymal 47 yn mewnosod adran 18A newydd yn Neddf Addysg 1996, i osod dyletswydd ar AALl'au sydd â sefydliadau gwarchodol ar gyfer troseddwyr ifanc yn eu hardal i sicrhau bod digon o addysg addas yn cael ei darparu i ddiwallu anghenion rhesymol y troseddwyr ifanc hynny. Bydd y diwygiadau a wnaed yn ystod cam pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn golygu y bydd gofyn i AALl'au ystyried a yw'n ddymunol i'r plant/bobl ifanc hynny barhau â chyrsiau y maent eisoes wedi cychwyn arnynt, ac y bydd gofyn i AALl’au ystyried y cwricwla cenedlaethol a lleol. Rhaid i unrhyw ddarparwr addysg y mae'r AALl yn gwneud trefniadau ag ef i ddarparu addysg ystyried gwybodaeth a roddir gan AALl cartref unrhyw berson, mewn perthynas â’r person hwnnw, wrth benderfynu ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd i'w darparu i'r person.

**<u>8ii) Cymal 48 (fel y'i diwygiwyd)</u>**

Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 fel na fydd plant a phobl ifanc sydd mewn dalfa blant yn cael eu heithrio mwyach o ddarpariaethau'r Deddfau Addysg. Yr oedd y diwygiadau a wnaed yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn darparu nad yw adran 562 yn gymwys o ran

rhai sy'n destun gorchmynion gofal o dan adran 25 o Ddeddf Plant 1989 (ac y darperir llety diogel ar eu cyfer am resymau lles). Mae hynny'n eglurhau'r hyn y tybir eisoes ei fod yn wir ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc.

**8iii) Cymal 49 (fel y'i diwygiwyd)**

Cafodd cymal 49 yn y Mesur fel y'i cyflwynwyd ei ddisodli yn ystod Cam yr Adroddiad gan gymal newydd sy'n cyflwyno Pennod 5A newydd yn Neddf Addysg 1996. Mae hon yn ailddatgan yr hyn yr oedd cymal 49 yn ei ddweud, ac yn gwneud darpariaeth newydd ychwanegol. Y darpariaethau newydd yw:

***— Adran 562A newydd o Ddeddf Addysg 1996***
Mae hon yn disodli'r adran 562B o Ddeddf Addysg 1996 a oedd wedi ei mewnosod gan y Mesur fel y'i cyflwynwyd. Pŵer i wneud rheoliadau ydyw, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru addasu darpariaethau Deddf Addysg 1996 o ran personau dan gadwad.

***— Adran 562B newydd o Ddeddf Addysg 1996***
Mae hon yn disodli'r adran 562A o Ddeddf Addysg 1996 a oedd wedi ei mewnosod gan y Mesur fel y'i cyflwynwyd, ac mae'n gosod dyletswydd ar awdurdod cartref i gymryd camau i hyrwyddo cyflawniad y potensial sydd gan berson i ddysgu, tra bo'r person hwnnw dan gadwad ac wedi iddo gael ei ryddhau. Bydd y diwygiadau a geir yma'n ei gwneud yn ofynnol ar yr awdurdod cartref i gymryd camau i drefnu bod addysg a hyfforddiant yn cael eu darparu wedi i'r person gael ei ryddhau, ac yn ei gwneud yn ofynnol ar awdurdod sy'n darparu llety i ystyried gwybodaeth a dderbynnir oddi wrth yr awdurdod cartref, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag addysg a hyfforddiant person sydd dan gadwad.

***— Adran 562C newydd yn Neddf Addysg 1996***
Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol ar AALl sy'n darparu llety i wneud ei ymdrechion gorau i sicrhau bod darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei wneud ar gyfer plentyn yn y ddalfa a oedd yn destun datganiad anghenion addysgol arbennig cyn cael ei gadw'n gaeth.

— ***Adran 562D newydd o Ddeddf Addysg 1996***
Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn caniatáu i AALl'au gyflenwi nwyddau a gwasanaethau at ddibenion gwneud y ddarpariaeth addysgol arbennig briodol sy'n ofynnol o dan adran 562C.

— ***Adran 562E newydd o Ddeddf Addysg 1996***
Mae'r adran newydd hon yn darparu pŵer i unrhyw un sydd wedi darparu addysg neu hyfforddiant i berson dan gadwad ddarparu gwybodaeth am y person hwnnw i AALl at ddibenion darparu addysg a hyfforddiant ar gyfer y person dan gadwad. Rhaid i AALl ddarparu gwybodaeth pan fydd yn derbyn cais gan gyrff penodedig. Rhaid i Weinidogion Cymru, pan dderbyniant gais gan AALl, ddarparu adroddiadau asesu (sydd yn adroddiadau ynglŷn â rhai sydd ag anawsterau dysgu).

— ***Adran 562F newydd o Ddeddf Addysg 1996***
Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth am blant sy'n destun datganiadau anghenion addysgol arbennig.

— ***Adran 562G o Ddeddf Addysg 1996***
Mae'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol ar AALl'au i roi gwybod i awdurdod cartref neu, yn achos rhai dros 16 yng Nghymru, i Weinidogion Cymru, pan fydd person nad oedd yn destun datganiad anghenion addysgol arbennig cyn cael ei gadw'n gaeth, ond yr ymddengys iddynt fod arno angen asesiad o'i anawsterau dysgu, yn cael ei ryddhau.

— ***Adran 562H o Ddeddf Addysg 1996***
Mae hon yn disodli adran 562C o Ddeddf Addysg 1996, a gafodd ei mewnosod gan y Mesur fel y'i cyflwynwyd, ac mae'n cynnwys darpariaeth i wneud cyfarwyddyd.

**8iv) Cymal 50 (fel y'i diwygiwyd)**
Cafodd cymal 50 yn y Mesur fel y'i cyflwynwyd ei ddisodli yn ystod Cam yr Adroddiad gan gymal newydd sy'n mewnosod adran 39A yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae'n gwneud darpariaeth debyg i'r hyn a gafodd ei chynnwys yn y cymal 50 cynharach, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol ar dimau troseddau ieuenctid i hysbysu AALl'au cartref pan oedd plentyn neu berson ifanc yn cael ei gadw'n gaeth. Mae'r ddarpariaeth newydd yn ymestyn y dyletswyddau hysbysu fel bod gofyn i dimau troseddau ieuenctid roi gwybod hefyd i'r AALl'au sy'n darparu llety, a bod gofyn iddynt hysbysu AALl'au pan fydd person yn cael ei drosglwyddo tra bo dan gadwad, a phan fydd person yn cael ei ryddhau.

**8v) Cymal 51 (newydd)**
Cafodd cymal 51 ei fewnosod yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Mae'n mewnosod adran 312A newydd yn Neddf Addysg 1996 ac yn diwygio adran 328(5) o'r Ddeddf honno. Mae'r darpariaethau hyn yn datgymhwyso Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 (sy'n darparu ar gyfer rhai ag anghenion addysgol arbennig) o ran rhai sydd wedi eu cadw yn y ddalfa, ac mae'n darparu ar gyfer adfer ac adolygu datganiad anghenion addysgol arbennig pan gânt eu rhyddhau.

## 9. Materion yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006

Ystyrir bod y darpariaethau y'i hamlinellir uchod yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan y Materion canlynol:

- *Mater 5.6 — Darpariaeth ynglŷn â gwneud trefniadau i ddarparu addysg i bersonau mewn oedran ysgol gorfodol a waharddwyd o ysgolion neu na fyddent am unrhyw reswm arall yn cael addysg addas fel arall.*

- *Mater 5.7 — Darpariaeth am yr hawl i gael addysg gynradd, uwchradd a phellach ac i gael hyfforddiant.*

- *Mater 5.8 — Darpariaeth am ddarparu gwasanaethau a fwriedir i annog, galluogi neu gynorthwyo pobl —*
  *(a) i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant;….*

- *Mater 5.13 — Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â sicrhau cydlafurio —*
  *...(b) rhwng un neu ragor o'r cyfryw [gyrff sy'n cynnal sefydliadau sydd a wnelont â darparu addysg bellach] a phersonau neu gyrff eraill ac iddynt swyddogaethau sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant yng Nghymru;*

- *Mater 5.16 — Darparu.. gwybodaeth mewn cysylltiad ag..*
  *(a) addysg neu hyfforddiant cyn-16;*
  *(b) addysg neu hyfforddiant ôl-16;…*

- *Mater 5.17 — "Addysg a hyfforddiant ar gyfer personau sy'n cael mwy o anhawster i ddysgu na mwyafrif y personau o'r un oed â'r personau hynny…. ".*

- *Mater 5.18 — Darparu unrhyw un o'r canlynol i blant neu bersonau ifanc —*
  *(a) cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant cymdeithasol neu gorfforol;*
  *(b) gweithgareddau addysgol.*

- *Mater 15.2 — Swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r canlynol —…;*
  *(b) diogelu a hyrwyddo llesiant plant hawdd eu niweidio;*
  *(c) lleihau anghyfartaleddau llesiant rhwng plant neu bersonau ifanc.*
  *Mae'r mater hwn yn gymwys i swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus y mae eu prif swyddogaethau'n ymwneud ag unrhyw un neu fwy o'r meysydd yn y Rhan hon.*

- *Mater 15.6*
  *Cydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bersonau ifanc.*
  *(mae ystyr "llesiant" ("well-being") yn cynnwys llesiant "i'r graddau y mae'n ymwneud ag ....addysg, hyfforddiant a hamdden")*

**Cychwyn**

10. Bydd y cymalau hyn, i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru, yn cychwyn drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

11. Barn Llywodraeth y Cynulliad yw bod y cymalau mewn perthynas ag addysg troseddwyr ifanc yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y'i nodir uchod, ac felly bod gofyn cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol o dan SO 26. Mae SO 26 yn pennu bod angen cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, yn ôl eu trefn, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os bydd

Mesur Seneddol DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

**Manteision defnyddio'r Mesur hwn**

12. Gellid ymdrin â'r darpariaethau yn y Mesur sy'n ymwneud ag addysg troseddwyr ifanc mewn Mesur Cynulliad a wnaed o dan y materion a nodir uchod o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Barn Llywodraeth y Cynulliad, fodd bynnag, yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Mesur DU hwn, sydd wedi cynnig cyfle hwylus i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod addysg troseddwyr ifanc mewn sefydliadau Cymreig, a throseddwyr ifanc Cymreig mewn sefydliadau Seisnig, yn cael ei sicrhau drwy osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Drwy wneud hyn, yr ydym yn sicrhau y rhoddir yr un 'hawliau' i addysg i droseddwyr ifanc yng Nghymru ag a roddir i'w cymheiriaid yn Lloegr.

13. Dim ond tri sefydliad yng Nghymru sy'n lletya troseddwyr ifanc, ac mae llawer o symud trawsffiniol, felly mae'n bwysig iawn sicrhau bod gan droseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr yr un hawliau a haeddiannau i addysg, ac y gwneir darpariaeth ar gyfer pawb ar yr un pryd. Yr un yn ei hanfod yw'r polisi cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr ynglŷn ag addysg troseddwyr ifanc, sef gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau addysg ac am sicrhau dilyniant addysg a gwell cydweithio rhwng partïon perthnasol. Mae'r polisïau gwahanol yng Nghymru o ran y cwricwlwm, a rôl Gweinidogion Cymru, yn cael eu hadlewyrchu yn y darpariaethau ar wyneb y Mesur ac yn y ffaith y bydd cyfarwyddyd a rheoliadau ar gyfer Cymru'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru.

14. Yn ychwanegol at hynny, nid oes unrhyw Fesurau Cynulliad ar gael ar hyn o bryd y gellid dod â'r darpariaethau hyn ymlaen oddi tanynt o fewn yr un cyfnod amser.

**Goblygiadau Ariannol**

15. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ariannu addysg i droseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr. Felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Weinidogion Cymru.

John Griffiths AC
Dirprwy Weinidog dros Sgiliau
Mai 2009